## Hanes geni Iesu y Meseia

**2** Tua'r un adeg dyma Cesar Awgwstws yn gorchymyn cynnal cyfrifiad drwy'r Ymerodraeth Rufeinig i gyd. 2
(Hwn oedd y cyfrifiad cyntaf, gafodd ei gynnal cyn bod Cwiriniws yn llywodraethwr Syria.) 3 Roedd pawb yn
mynd adre i'r trefi lle cawson nhw eu geni, i gofrestru ar gyfer y cyfrifiad.

4 Felly gan fod Joseff yn perthyn i deulu'r Brenin Dafydd, gadawodd Nasareth yn Galilea, a mynd i gofrestru yn
Jwdea – yn Bethlehem, hynny ydy tref Dafydd. 5 Aeth yno gyda Mair oedd yn mynd i fod yn wraig iddo, ac a
oedd erbyn hynny'n disgwyl babi. 6 Tra oedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni, 7 a dyna lle cafodd
ei phlentyn cyntaf ei eni – bachgen bach. Dyma hi'n lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd
mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid. Doedd dim llety iddyn nhw aros ynddo.

## Y Bugeiliaid a'r angylion

8 Yn ardal Bethlehem roedd bugeiliaid allan drwy'r nos yn yr awyr agored yn gofalu am eu defaid. 9 Yn sydyn
dyma nhw'n gweld un o angylion yr Arglwydd, ac roedd ysblander yr Arglwydd fel golau llachar o'u cwmpas
nhw. Roedden nhw wedi dychryn am eu bywydau. 10 Ond dyma'r angel yn dweud wrthyn nhw, "Peidiwch bod
ofn. Mae gen i newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhobman yn llawen iawn. 11 Mae eich
Achubwr wedi cael ei eni heddiw, yn Bethlehem (tref y Brenin Dafydd). Ie, y Meseia! Yr Arglwydd! 12 Dyma sut
byddwch chi'n ei nabod e: Dewch o hyd iddo yn fabi bach wedi'i lapio mewn cadachau ac yn gorwedd mewn
cafn bwydo anifeiliaid."

13 Yn sydyn dyma filoedd o angylion eraill yn dod i'r golwg, roedd fel petai holl angylion y nefoedd yno yn addoli
Duw!

14 Gogoniant i Dduw yn y nefoedd uchaf, heddwch ar y ddaear islaw, a bendith Duw ar bobl."

15 Pan aeth yr angylion i ffwrdd yn ôl i'r nefoedd, dyma'r bugeiliaid yn dweud wrth ei gilydd, "Dewch! Gadewch
i ni fynd i Bethlehem, i weld beth mae'r Arglwydd wedi'i ddweud wrthon ni sydd wedi digwydd."

16 Felly i ffwrdd â nhw, a dyma nhw'n dod o hyd i Mair a Joseff a'r babi bach yn gorwedd mewn cafn bwydo
anifeiliaid. 17 Ar ôl ei weld, dyma'r bugeiliaid yn mynd ati i ddweud wrth bawb beth oedd wedi digwydd, a beth
ddwedodd yr angel wrthyn nhw am y plentyn yma. 18 Roedd pawb glywodd am y peth yn rhyfeddu at yr hyn
roedd y bugeiliaid yn ei ddweud. 19 Ond roedd Mair yn cofio pob manylyn ac yn meddwl yn aml am y cwbl oedd
wedi cael ei ddweud am ei phlentyn. 20 Aeth y bugeiliaid yn ôl i'w gwaith gan ganmol a moli Duw am bopeth
roedden nhw wedi'i weld a'i glywed. Roedd y cwbl yn union fel roedd yr angel wedi dweud.